

# CAPEL SALEM, DOLGELLAU

## TAFLEN MIS EBRILL 2024

Rhifyn 259




Annwyl gyfeillion,

Fy mraint yw cael eich cyfarch trwy gyfrwng y daflen fisol y mis hwn. Rydym bellach yn swyddogol yn nhymor y gwanwyn ac mae'r arwyddion o hynny eisoes i'w gweld o'n cwmpas - y coed yn blaguro, y caeau yn glasu a'r ŵyn bach yn prancio ac yn rasio'n un haid ar hyd y dolydd.

Wrth gerdded i fyny Ffordd y Gader yn ddiweddar daeth Bethan a minnau ar draws Mrs Mary Jones. Dechreuom sôn am gân yr adar yn y coed a'r llwyni o'n cwmpas. Dangosodd Mary ap o'r enw *Merlin* a oedd ganddi ar ei ffôn, ap sydd yn dweud wrthych pa adar sydd yn canu gerllaw. Wedi mynd adref fe lawr-lwythais innau'r ap (os nad oes gennych lawer o gof yn sbâr ar eich ffôn ni fuaswn yn argymell eich bod yn ei lawr-lwytho, gan fod y bas-data o gân yr holl adar yn eithaf swmpus). Ers hynny y mae Bethan a minnau wedi bod yn profi'r ap wrth fynd am dro, gan ychwanegu sawl munud i bob taith gerdded. Rhaid dweud ei fod yn effeithiol iawn - weithiau rydym yn gallu gweld yr adar sy'n y cyffiniau ac mae'r ap yn adnabod eu cân yn arbennig o dda. `Rydym eisoes wedi dod i'r casgliad mai'r robin goch, y fronfraith a'r fwyalchen yw cantorion pennaf côr y wig.

Hwyrach eich bod chithau wedi dod i'r casgliad fod mynd i ffwrdd am ychydig ddyddiau neu gyfnodau hirach yn rhywbeth sydd yn digwydd gydol y flwyddyn erbyn hyn. Mae ymwelwyr i'w gweld ar ein strydoedd, yn ein siopa a'n gwestai hyd yn oed ym misoedd oer y gaeaf. Rhag cael ein gadael allan, treuliodd Bethan a minnau ddwy noson yn Llandudno yn ddiweddar. Roedd yn benwythnos braf a chawsom amser wrth ein boddau. Nid oes rhaid crwydro ymhell i gael amser da. Wedi cyrraedd, aethom am dro o amgylch y Gogarth, gan weld dwsinau o forloi, hen ac ifanc, yn gorweddian yn ddiog ym Mhorth Heli (gweler uchod). Y diwrnod canlynol cerddasom draw at Drwyn y Fuwch (Little Orme) a gwelsom nifer helaeth o forloi llwyd ym Morth Dyniewaid hefyd.

Prif bwrpas ein hymweliad, a dweud y gwir, oedd mynd i'r pictiwrs! Anaml iawn y byddwn yn teithio er mwyn mynd i weld ffilm ond os welwn ni fod yna ffilm sydd yn apelio tra ar ein gwyliau byddwn yn manteisio ar y cyfle





i'w gweld. Y ffilm yn yr achos hwn oedd "One Life". Mae'r ffilm, sydd yn adrodd stori wir, yn un emosiynol a gafaelgar. Dweud hanes gŵr o'r enw Nicholas Winton (Syr Nicholas Winton yn fwy diweddar) y mae'r ffilm. Chwaraeodd Winton ran ganolog ac allweddol yn yr ymgyrch i achub 669 o blant, y rhan fwyaf ohonynt yn Iddewon, o Tsiecoslofacia ar drothwy'r Ail Ryfel Byd. Ar ymweliad byr â Tsiecoslofacia, bu'n helpu i lunio rhestr o blant oedd angen eu hachub ac wedi iddo ddychwelyd i Brydain, gweithiodd yn ddiflino i gyflawni'r gofynion cyfreithiol er mwyn dod â'r plant i Brydain a dod o hyd i gartrefi a noddwyr ar eu cyfer. Adnabuwyd y broses o achub y plant hyn yn ddiweddarach fel y Kindertransport Tsiec. Arhosodd ei gyflawniadau dyngarol yn anhysbys ac yn ddisylw gan y byd am bron i 50 mlynedd tan 1988 pan gafodd ei wahodd i raglen deledu'r BBC *That's Life!*, lle cafodd ei aduno â dwsinau o'r plant yr oedd wedi'u helpu i ddod i Brydain a chafodd ei gyflwyno i lawer o'u plant a'u hwyrion. Anthony Hopkins sydd yn chwarae rhan Nicholas Winton yn y ffilm ac mae actor arall o Gymru, sef ei gyfaill, Jonathan Pryce o Dreffynnon, hefyd yn chwarae rhan eitha' amlwg. Os ydych yn tanysgrifio i rai o'r sianeli teledu megis Netflix neu Amazon Prime hwyrach y gallech ei gwylio - mae'n werth ei gweld ac yn adfer dipyn o ffydd yn y natur ddynol yng nghanol yr holl bethau erchyll sydd yn digwydd yn ein byd y dyddiau hyn.

Mae wedi bod yn hynod wlyb yn ystod y gaeaf sydd newydd ddirwyn i ben, ac mae'n parhau felly i raddau helaeth. Hwyrach i chi sylwi ar y damprwydd sydd wedi ymddangos ar wal y capel i'r chwith o'r organ, gan ei anharddu. Rydym yn trio gweld yn union ble mae'r tamprwydd yn tarddu er mwyn datrys y broblem. Mae'n bosib y bydd yn rhaid adfer y wal yn ystod misoedd yr haf. Byddai hynny'n golygu cyfnod o oedfaon yn y Festri.

Da oedd clywed fod Mrs Mona Hughes wedi derbyn llawdriniaeth erbyn hyn a'i bod yn gwella'n dda. Braf fydd cael ei chwmni yn ein hoedfaon unwaith eto yn y mis neu ddau nesaf.

Gan obeithio y cewch chithau gyfle i fwynhau'r gwanwyn a thrydar swynol yr adar.

Gyda chofion atoch i gyd,

*Dwyryd* (ar ran y swyddogion)

**Myfyrdod Mis Ebrill 2024 gan ein gweinidog, y Parchedig Patrick Slattery**


**Cynhyrfu'r dyfroedd a Chyfathrebu Ioan 5:1-15**






Un o'r llenorion mwyaf cyfoes a radical yw Aled Jones Williams, cyn -offeiriad yr Eglwys yng Nghymru (gweler dde). Dyn sydd wedi cynhyrfu'r dyfroedd fwy nag unwaith gyda'i syniadau radicalaidd am gyflwr yr eglwysi yn yr oes hon. Mae wedi ysgrifennu llawer o ddramâu a llyfrau sydd yn procio meddwl y darllenwyr. Un o'i ddramâu yw, 'Iesu' ( 2008). Drama Comisiwn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd oedd hon, ac mae wedi bod ar daith mewn theatrau yn y gogledd a'r de. Drama heriol iawn yw gan ei bod yn portreadu Iesu fel merch. Mae'n ddrama wleidyddol nid drama grefyddol. Mae'r ddrama heriol hon yn dad-grefyddu Iesu o Nasareth a newid ein delw ni fel anghydffurfwyr Cymraeg ohono a'i osod yn y byd fel y mae mewn gwirionedd.

Rydan ni'n meddwl ein bod ni'n gwybod pwy ydy Iesu, ond a ydyn ni'n gwybod mewn gwirionedd? Nid yw gwybod yn ddigon, mae'n rhaid adnabod. **'Gwae ni i wybod y geiriau, heb adnabod y gair.'** (Gwenallt.) Beth bynnag yw ein barn ni am y ddrama heriol hon, mae wedi cynhyrfu'r dyfroedd. Mae wedi procio meddwl, mae wedi deffro rhai o drwmgwsg ysbrydol. Ac wrth siarad â rhai pobl am y ddrama hon rwy'n gallu dweud ei bod, yn lle tynnu oddi ar gred neu ffydd, wedi bod yn gyfrwng i gadarnhau ffydd. Os felly mae'n ddrama hynod o lwyddiannus. Mae crefydd wedi mynd yn faich i lawer ac mae angen ailddarganfod y Gair, sef Iesu. Onid oes angen cynhyrfu'r dyfroedd ym mhob eglwys i greu ymwybyddiaeth ymhlith rhai o'r aelodau am eu hoblygiadau? Argyfwng ffydd yw ein gwir argyfwng heddiw.




Gyda dyfodiad y dechnoleg newydd, sef y we a'r ffôn symudol, mae'n hawdd iawn cyfathrebu yn ddisymwth gyda rhywun hyd yn oed ochr arall y byd. Mae cwmnïau mawr yn dibynnu ar gyfathrebu effeithiol i werthu eu nwyddau ac i wneud elw. Swyddog allweddol mewn busnes llewyrchus yw'r swyddog cyfathrebu. Yn rhyfedd iawn maent yn defnyddio patrwm sydd wedi cael ei defnyddio am ddwy fil o flynyddoedd. Does neb wedi deall y ddawn o gyfathrebu gyda phobl yn well na Iesu. Meddyliwch am y damhegion - storiâu syml, byr a difyr gyda neges bwysig am y nefoedd. Heddiw mae cwmnïau mawr a busnesau yn defnyddio'r un patrwm i werthu eu nwyddau ac i gyfleu eu negeseuon. Rydym yn gyfarwydd â chymaint o hysbysebion ar y teledu sy'n dylanwadu arnom ni. Mae angen i'r eglwys ddefnyddio dulliau newydd a mwy radical i gyfathrebu heddiw.

Roedd swyddog cyfathrebu un o'r cwmnïau mawr yn cael ei holi ar raglen radio beth amser yn ôl, ac yn cyfeirio at yr eglwys fel trychineb cyfathrebu. Roedd yn dweud bod eglwysi yn bodoli er mwyn eu hunain mewn capsiwl amser, tra bo'r byd wedi symud ymlaen a mwyafrif y boblogaeth yn cyfathrebu â'i gilydd drwy'r we. Rydym yn agored i feirniadaeth yn fwy nag erioed o'r blaen. Ond i fod yn deg mae llawer o eglwysi gyda gwefan a rhai yn medru darlledu eu gwasanaethau yn fyw ar y we. Ond rhaid sylweddoli bod yna lawer o eglwysi sydd heb fodd i ddefnyddio technoleg fodern. Yn yr un modd ag y mae llawer o henoed heb ryngrwyd yn eu cartrefi.

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i gyfathrebu'r efengyl yw trwom ni fel unigolion. Gall pawb wneud hyn o ddydd i ddydd ymhlith ein teuluoedd, cymdogion a chyfeillion. Yn y siop, ar y stryd, yn ein gwaith, yma mae ein maes cenhadol. Mae cyfle gwych i'r eglwys ond mae'n rhaid i ni ddysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol. Mae angen i rywun gyffroi'r dyfroedd a chyfathrebu'n glir. Neges y Pasg rydyn ni wedi'i ddathlu yw, mae bywyd newydd, mae gobaith, gall fod heddwch a chyfiawnder i bawb. Mae'r ateb i'w gael yn nysgeidiaeth Iesu.

**Gweddi.** Darllen emyn W. Rhys Nicholas (841 Caneuon Ffydd.)

**"Agor di ein llygaid, Arglwydd, i weld angen mawr y byd,**
**gweld y gofyn sy'n ein hymyl, gweld y dioddef draw o hyd."**

**Croeshoelio Iesu** (Mathew 27)
*32Wrth fynd allan daethant ar draws dyn o Cyrene o'r enw Simon, a gorfodi hwnnw i gario ei groes*
*ef. 33Daethant i le a elwir Golgotha, hynny yw, "Lle Penglog", 34ac yno rhoesant iddo i'w yfed win wedi ei*
*gymysgu â bustl, ond ar ôl iddo ei brofi, gwrthododd ei yfed. 35Croeshoeliasant ef, ac yna rhanasant ei ddillad,*
*gan fwrw coelbren, 36ac eisteddasant yno i'w wylio. 37Uwch ei ben gosodwyd y cyhuddiad yn ei erbyn mewn*
*ysgrifen: "Hwn yw Iesu, Brenin yr Iddewon." 38Yna croeshoeliwyd gydag ef ddau leidr, un ar y dde ac un ar y*
*chwith........*

***Marwolaeth Iesu***

*45 O ganol dydd, daeth tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn. 46A thua thri o'r gloch*
*gwaeddodd Iesu â llef uchel, "Eli, Eli, lema sabachthani", hynny yw, "Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy*
*ngadael?" 47O glywed hyn, meddai rhai o'r sawl oedd yn sefyll yno, "Y mae hwn yn galw ar Elias." 48Ac ar*
*unwaith fe redodd un ohonynt a chymryd ysbwng a'i lenwi â*
*gwin sur a'i ddodi ar flaen gwialen a'i gynnig iddo i'w*
*yfed. 49Ond yr oedd y lleill yn dweud, "Gadewch inni weld a*
*ddaw Elias i'w achub." 50Gwaeddodd Iesu drachefn â llef uchel, a*
*bu farw.*



**Bore dydd Gwener y Groglith cynhaliwyd yr orymdaith flynyddol o'r Marian i'r Sgwâr, dan adain Cytûn Dolgellau. Roedd nifer y gorymdeithwyr yn llai nag arfer eleni ond roedd nifer dda wedi ymgynnull ger Tŷ Meirion yn y Sgwâr ar gyfer ein gwasanaeth cyd-enwadol. Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr orymdaith a'r gwasanaeth ac a gynorthwyodd gyda'r trefniadau.**



**Y Tad Victor Walter,**
**Yr offeiriad Catholig**



**Parchedig Ddr Carol Roberts**
**Eglwys y Santes Fair**

<u>OEDFAON MIS EBRILL 2024</u>

**Dydd Sul, Ebrill 7fed -10.00 a.m.** - Oedfa dan ofal y Parchedig John Owen, Rhuthun **(Oedfa Gymun)**
**Dydd Sul, Ebrill 14eg - 10.00 a.m.** - Oedfa dan ofal y Fnsg Beryl Vaughan, Llanerfyl
**Dydd Sul, Ebrill 21ain - 10.00 a.m.** - Oedfa dan ofal y Parchedig Gwenda Richards, Caernarfon
**Dydd Sul, Ebrill 28ain - 10.00 a.m.** - Oedfa dan ofal y Parchedig Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog